# Gwrando, Dysgu a Newid Gyda’n Gilydd: Ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid 2024-2027

Medi 2024

## Taflen wybodaeth

Blwch gwybodaeth

Am fwy o gyngor, cysylltwch â'r: Tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Dyddiad adolygu arfaethedig: Hydref 2025

**Rheoli fersiwn**

| Fersiwn y ddogfen | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Diwygiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Hydref 2024 | |
| | | | |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Ein trosolwg strategol** | **2** |
| **Ein cynllun gweithredu** | **6** |
| **Ein sianelau** | **7** |
| **Monitro a gwerthuso** | **8** |
| **Atodiad 1: Dadansoddiad rhanddeiliaid allanol** | |
| **Atodiad 2: Grwpiau rhanddeiliaid** | |
| **Atodiad 3: Lleoliad, amlder ac aelodaeth fforwm** | |

## Rhagair

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweithio’n helaeth gyda’n rhanddeiliaid i ddatblygu ein gwaith, gan gynnwys ein hymagwedd newydd at arolygu addysg a hyfforddiant o 2024 a thu hwnt. Trwy ymgorffori adborth o ystod eang o drafodaethau, ymgynghoriadau ac arolygiadau peilot, rydym wedi datblygu set newydd o drefniadau arolygu ar gyfer y rhan fwyaf o’r sectorau rydym yn eu harolygu. Mae’r datblygiadau hyn yn barhaus a byddant yn parhau i esblygu wrth i ni gefnogi diwygio mewn addysg yng Nghymru.

Rydym yn credu’n gadarn mewn gwneud arolygiad yn brofiad cadarnhaol i bawb sy’n gweithio ym maes addysg a hyfforddiant. Yn yr un modd â phob athro, aelod o staff, ac arweinydd mewn addysg, mae dysgwyr yn bwysig i’r rhan fwyaf ohonom ni. Wrth i ni gyflwyno ein trefniadau arolygu newydd, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar beth sydd orau i’r dysgwr – gwneud yn siŵr ei fod yn cael yr addysg mae’n ei haeddu.

Rydym eisoes yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid ar draws y tirlun addysg. Rydym yn cyfarfod ag arweinwyr yn rheolaidd, er enghraifft trwy ein grwpiau cyfeirio i benaethiaid, ac yn cynnal cynadleddau a gweminarau i annog trafodaeth. Yn gynharach eleni, sefydlom ein Cymuned i Rieni a Gofalwyr i’n cynorthwyo i ddeall ystod ehangach o safbwyntiau a phrofiadau addysg yn well. Rydym yn ceisio meithrin ein gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn barhaus, ac yn sefydlu sianelau sy’n galluogi cyfathrebu dwy ffordd. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar ffyrdd o gynnwys dysgwyr ymhellach ac ymgysylltu â mwy o bobl sy’n gweithio mewn addysg ledled Cymru. Mae’r strategaeth ddiweddaraf hon yn adlewyrchu’r modd yr ydym wedi addasu ac yn parhau i dyfu, gan ein helpu i wrando ar bob un o’n rhanddeiliaid, eu hysbysu a’u cynnwys.

Dymuniadau gorau a diolch i bob un ohonoch chi, staff sy’n gweithio mewn addysg a hyfforddiant, rhieni a gofalwyr, dysgwyr, a phawb sy’n gysylltiedig â chyflawni ein cenhadaeth genedlaethol i wella addysg a hyfforddiant i bob dysgwr yng Nghymru.

**Owen Evans, PAEF, Hydref 2024**

## Cyflwyniad

Buom yn gweithio'n agos â dysgwyr, rhieni, gweithwyr addysg proffesiynol ac arolygwyr i ddatblygu ein fframwaith arolygu newydd, Arolygu ar gyfer y Dyfodol (2024-2030). Roedd y trafodaethau gwerthfawr a gonest a gawsom gyda chi o gymorth i ni addasu'r modd yr ydym yn gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant.

Rydym nawr eisiau meithrin y perthnasoedd agosach hyn i wneud yn siŵr fod ein gwaith yn parhau i gefnogi gwelliant. Mae angen i ni gael strategaeth hyblyg i ymgysylltu â chi, ein rhanddeiliaid, a gwneud yn siŵr fod ein gwaith yn gweddu i'ch anghenion chi mewn addysg a hyfforddiant.

Wrth i'n hymagwedd newydd at arolygu gael ei chyflwyno yn y rhan fwyaf o sectorau, byddwn yn parhau i weithio gyda chi i fireinio ein cynlluniau. Byddwn yn ymgynghori'n eang, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu i gyrraedd grwpiau newydd a gwahanol o randdeiliaid, ac yn defnyddio'ch barn i helpu cynllunio ein gweithgareddau a gwella'n gwaith.

Drwyddi draw, byddwn yn parhau i sicrhau bod dysgwyr yn ganolog i arolygiadau a bod ein gwaith yn adlewyrchu eich disgwyliadau. Mae eich hyder a'ch ymddiriedaeth yn ein gwaith yn flaenoriaeth uchel i ni. Mae meithrin yr hyder a'r ymddiriedaeth hon yn dibynnu ar ein gweledigaeth strategol glir am y modd y mae ein gwaith yn helpu gwella addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Er y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill, byddwn bob amser yn llais annibynnol. Mae'r strategaeth hon i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ein helpu i feithrin ein perthynas â chi a gwrando ar eich syniadau. Rydym yn defnyddio eich adborth a'ch mewnwelediadau i wella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac yn cyflawni ein hamcanion strategol. Darllenwch ymlaen i weld sut rydym yn **gwrando arnoch**, **yn eich cynnwys yn ein gwaith** ac yn eich **hysbysu** amdano.

## Ein trosolwg strategol

Rydym wedi alinio ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu â'n hamcanion strategol a'n hegwyddorion cyflwyno.

Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru.

### Gwneud iddo ddigwydd

Ein **cenhadaeth** yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant hunanwella a dysgu trwy ein gwaith cyngor, arolygu, a meithrin gallu.

Ein hamcanion strategol yw:

- Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a

safonau addysg a hyfforddiant
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru
- Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant

Ein hegwyddorion cyflwyno yw:

- Cyflwyno ein gwaith: Creu sefydliad gwell – byw yn ôl ein gwerthoedd

Dyma ein **gwerthoedd**:

- Rhoi dysgwyr yn ganolog i'n gwaith
- Gwrando ar, dysgu a gweithio gyda phobl eraill
- Gweithredu'n agored, yn deg a gydag uniondeb
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hyrwyddo iechyd, lles a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith
- Annog cyfrifoldeb, blaengaredd ac arloesedd

Trwy wrando ar ein rhanddeiliaid a dysgu oddi wrthynt, rydym yn ffurfio'r hyn rydym yn ei wneud i gyflawni pob un o'n hamcanion strategol, a sut.

Byddwn:

- **Yn gwrando arnoch chi:** yn gwneud y defnydd gorau o'ch amser trwy ofyn am eich barn, ymgysylltu â chi wrth wneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth; annog adborth trwy ganmoliaethau a phryderon i helpu llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau; a'n helpu i feithrin perthnasoedd gwell.
- **Yn eich cynnwys:** cynnwys darparwyr mewn cynllunio eu harolygiad; cynnwys rhanddeiliaid yn uniongyrchol yn ein harolygiadau; gweithio gyda'n gilydd ar brosiectau ar y cyd; ac annog sgwrs trwy wahanol sianelau cyfathrebu.
- **Yn eich hysbysu:** rhoi negeseuon clir, cydlynus a chyson i chi; rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddatblygiadau mewn arolygiad, yr arfer effeithiol a'r argymhellion diweddaraf o'n gwaith thematig a'n gwaith arolygu.

## Amcan strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus

Mae'n bwysig eich bod yn ymddiried yn ein gwaith ac yn gweld ei fod yn dryloyw. Dyna pam rydym yn defnyddio ystod eang o sianelau cyfathrebu i'ch cynnwys. Rydym yn darparu atebolrwydd cyhoeddus trwy'r meysydd allweddol hyn:

### Gwrando

- **Sianelau adborth** – holiaduron cyn-arolygiad ac ôl-arolygiad, arolygon cyn-arolygiad gwasanaethau addysg llywodraeth leol, cyfarfodydd â rhieni, llywodraethwyr, staff a dysgwyr, pwyllgorau rheoli ar gyfer UCDau.

- **Arolwg amgyffredion rhanddeiliaid** – Ym mis Medi 2024, cyflwynom ein harolwg cyntaf o amgyffredion rhanddeiliaid i gael dealltwriaeth well o farn a gwaith Estyn. Bydd yr arolwg hwn yn cael ei gynnal bob blwyddyn a bydd yn rhoi mewnwelediad gwell i ni ar effaith ein gwaith ac yn nodi unrhyw feysydd lle

gallwn ganolbwyntio ar yrru gwelliant. Trwy ddeall pwy sy'n ymateb i'r arolwg, byddwn yn ceisio ymgysylltu'n well ag unrhyw grwpiau o randdeiliaid na chofnodwyd eu barn yn gryf.

**Cynnwys**

- **Ymgynghori** – rhannu cynigion a gwahodd rhanddeiliaid i ffurfio dyfodol ein gwaith

- **Fforymau a grwpiau cyfeirio** – grwpiau sy'n benodol i sector a grwpiau prosiect i gynnwys proffesiynau addysg a llywio'r hyn rydym ni'n ei wneud

- **Cymuned rhieni a gofalwyr** – gofyn am farn rhieni a gofalwyr ar ein gwaith ac agweddau pwysig eraill ar addysg yng Nghymru

**Hysbysu**

- **Canfyddiadau arolygu** – adroddiadau unigol ar ein gwefan. Caiff adroddiadau arolygu eu hanfon trwy'r e-bost at wleidyddion lleol a Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.
- **Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar addysg a hyfforddiant** – lledaenu'n eang ymhlith yr holl randdeiliaid, ar-lein ac oddi ar-lein, trwy'r cyfryngau a thrwy ddigwyddiadau a chyflwyniadau rhanddeiliaid. Bob blwyddyn, ein nod yw datblygu ymagweddau newydd at wneud y negeseuon hyn yn fwy perthnasol a difyr.
- **Adolygiadau thematig cenedlaethol** – adroddiadau ar ein gwefan, wedi eu cefnogi gan ystod o adnoddau i gyfleu canfyddiadau yn eang – fideos gan awduron, cyflwyniadau, y cyfryngau; blogiau.
- **Arfer effeithiol** – astudiaethau achos ysgrifenedig a fideos ar-lein, yn cynnwys cipluniau o fewn adroddiadau arolygu; cyngor ac arweiniad i ddarparwyr yn ystod arolygiad.
- **Cyhoeddiadau corfforaethol** – mae ein Cynllun Blynyddol a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon gyda'i gilydd yn amlinellu ein cyfeiriad ac yn amlygu ein perfformiad.

**Amcan strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol**

Mae'r Gweinidog Addysg yn gofyn i ni am gyngor ac arweiniad am feysydd addysg a hyfforddiant penodol, trwy lythyr cylch gwaith blynyddol. Mae'r gwaith hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac adolygu polisi addysg cenedlaethol.

**Gwrando**

- Mae barn rhieni a gofalwyr am brofiadau plant o addysg yn bwysig iawn i ni. Bydd gwrando ar eu safbwynt i ffwrdd o'r broses arolygu yn rhoi dealltwriaeth well i ni o'u barn ar faterion addysgol. Mae ein Cymuned Rhieni a Gofalwyr newydd yn ein galluogi i glywed barn a syniadau sy'n dylanwadu ar ein penderfyniadau ac yn ein helpu i ffurfio'r ffordd ymlaen.

### Cynnwys

Mae ein cymorth i ddatblygu ac ymgorffori'r cwricwlwm a diwygio addysgol yn parhau trwy:

- Sgyrsiau ag ysgolion ac UCDau. Mae bod yn hyblyg ac yn sensitif i amgylchiadau unigol darparwyr yn bwysig i ni. Bydd hyn yn ein helpu i weld y cynnydd y mae ysgolion yn ei wneud â blaenoriaethau cenedlaethol, yn cynnwys prosesau gwerthuso a gwella a datblygu'r cwricwlwm. Bydd y gwaith hwn yn creu darlun cenedlaethol o'r hyn sy'n gweithio'n dda ac yn nodi'r heriau.
- Gwasanaethau Gwella Ysgolion ac Awdurdodau Lleol: rhannu'r prif negeseuon o'n gwaith am ddatblygiadau cynnar mewn ysgolion.
- Cynrychiolaeth mewn grwpiau llywio a phwyllgorau
- Rhannu arfer effeithiol ac ymagweddau diddorol wrth iddynt ddod i'r amlwg mewn ysgolion

### Hysbysu

- Cyhoeddi a hyrwyddo adroddiadau thematig yn cynnwys argymhellion eang i ddarparwyr, swyddogion polisi a'r llywodraeth.

## Amcan strategol 3: Meithrin gallu

Mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn cefnogi ein hamcan strategol i feithrin gallu mewn addysg a hyfforddiant.

### Gwrando

- Cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant yn y broses wella. Yn ystod arolygiad ac ymweliadau interim, mae ein sgyrsiau proffesiynol a'n hargymhellion yn helpu i ysbrydoli a chefnogi gwelliant.
- Mae Arolygwyr Cyswllt dynodedig yn ymweld â phob darparwr addysg bellach a dysgu yn y gwaith yn anffurfiol bob blwyddyn. Mae Arolygwyr Cyswllt yn datblygu ein perthynas â'r sectorau hyn, yn monitro perfformiad a chynnydd, yn gwerthuso yn erbyn themâu cyffredin cytûn, ac yn nodi a rhannu arfer effeithiol.
- Mae Arolygwyr Cyswllt Awdurdod Lleol (ACALl) yn monitro ac yn herio awdurdodau lleol am berfformiad a chynnydd eu hysgolion a'u gwasanaethau addysg. Mae Arolygwyr Cyswllt Awdurdod Lleol yn gweithio'n adeiladol gyda'r awdurdod ac yn rhannu arfer effeithiol, lle bo'n berthnasol. Mae Archwilio Cymru yn cymryd rhan yn ein holl arolygiadau GALlL.

### Cynnwys

- Rydym yn hyfforddi Arolygwyr Cymheiriaid bob blwyddyn ac yn eu cynnwys yn ein gwaith arolygu, gan alluogi uwch arweinwyr i gael profiad gan ddarparwyr eraill. Mae Arolygwyr Cymheiriaid yn hynod werthfawr i ni – maent yn helpu creu dealltwriaeth a disgwyliadau ar y cyd ar draws addysg. Mae rhyw 1,000 o Arolygwyr Cymheiriaid ar draws pob darparwr, ac maent yn cael cyfle i weld arfer sy'n wahanol i'w harfer nhw eu hunain – yn mireinio eu medrau dadansoddol a'u dealltwriaeth i'w helpu i feithrin gallu ar draws eu sector. Rydym hefyd yn eu hyfforddi i gymryd rhan yn ein hadolygiadau arolygu

thematig.

- Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid gwella ysgolion a byddwn yn parhau i'w defnyddio ar rai arolygiadau cynradd ac uwchradd.
- Byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr presennol (uwch arweinwyr) fel enwebeion ar arolygiadau. Nhw yw'r ddolen rhwng y darparwr a'r tîm arolygu. Mae ein grŵp cyfeirio penaethiaid yn ein galluogi i ymgysylltu ag uwch arweinwyr yn rheolaidd a chasglu adborth a mewnwelediadau gwerthfawr am elfennau amrywiol o'n gwaith.
- Rydym eisiau gweithio gyda mwy o weithwyr addysg proffesiynol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Cyflwynom ein Rhaglen Datblygu Arweinwyr Lleiafrifoedd Ethnig yn 2023, gan roi profiad o arolygu i helpu datblygu eu medrau beirniadol mewn gwerthuso a gwella.

**Hysbysu**

- Nodi arfer effeithiol o'n gwaith arolygu a thematig – gan rannu hyn ar ein gwefan, yn adroddiad blynyddol PAEF ac mewn digwyddiadau allanol.
- Cyhoeddi ymatebion i holiaduron i alluogi darparwyr i ddadansoddi a meincnodi eu perfformiad eu hunain.

- Arolygu Cymru – ymrwymiad i gydweithio rhyngom ni a'r tri phrif gorff arolygu, archwilio a rheoleiddio arall yng Nghymru. Ein nod ar y cyd yw cefnogi deilliannau gwell i bobl, gan warchod eu buddiannau trwy adrodd yn ddiduedd ar wasanaethau cyhoeddus.

- SICI – Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd ag Arolygiaethau'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon a gydag arolygwyr addysg cenedlaethol a rhanbarthol yn Ewrop sy'n aelodau o Gynhadledd Sefydlog Ryngwladol yr Arolygiaethau (SICI). Rydym yn cyfrannu at drafodaethau gan rannu a thrafod arfer a heriau presennol o'r sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

## Ein cynllun gweithredu

Mae cyfathrebu clir yn ganolog i'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Ein nod yw rhannu gwybodaeth sy'n ddefnyddiol ac yn hygyrch i bawb, o ddysgwyr a rhieni / gofalwyr i weithwyr addysg proffesiynol a swyddogion y llywodraeth. Mae ein polisi iaith Gymraeg yn sicrhau ein bod yn ymdrin â phopeth yn ddwyieithog a bod ein gohebiaeth yn bodloni dewisiadau iaith rhanddeiliaid.

Mae'r cynllun gweithredu isod yn cael ei ailffurfio yn barhaus wrth i ni barhau i ystyried sut orau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyflawni ein hamcanion.

- Cyfleu a gweithredu ein trefniadau arolygu diwygiedig o fis Medi 2024.
- Esblygu'r broses i arolygu lleoliadau nas cynhelir ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar y cyd, yn dilyn adolygiad o'r trefniadau arolygu.
- Datblygu ac esblygu'r trefniadau arolygu ar gyfer y sector AGA, cyfiawnder a dysgu yn y gwaith mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol.

- Adeiladu ar y dulliau cyfathrebu rydym yn eu defnyddio i gyrraedd grwpiau newydd a gwahanol o randdeiliaid, a defnyddio eu barn i helpu cynllunio ein gweithgareddau a gwella ein gwaith.
- Parhau i gryfhau'r modd rydym yn arolygu darparwyr ar sail adborth gan ein rhanddeiliaid.
- Cyn arolygiad, parhau i gynnal arolygon o rieni, dysgwyr, llywodraethwyr, athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill, yn ogystal â'r gymuned ehangach ar gyfer arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol.
- Cyflwyno cwestiynau demograffig i'n harolygon cyn-arolygiad i'n helpu i ddeall gwahaniaethau mewn barn ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr ar lefel genedlaethol.
- Ymgysylltu'n flynyddol â phob sector trwy ein fforymau rhanddeiliaid a'n cyfarfodydd, grwpiau llywio a phwyllgorau rheolaidd.
- Parhau i hysbysu rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol am gyhoeddi ein hadroddiadau arolygu.
- Datblygu ein gwefan newydd yn barhaus ac ymateb i adborth defnyddwyr a dadansoddeg i sicrhau bod cynnwys yn hygyrch a difyr.
- Parhau i esblygu ein strategaeth creu cynnwys i rannu mewnwelediadau yn effeithiol am ein gwaith i gefnogi gwelliant mewn dysgu.
- Parhau i rannu adroddiadau thematig ac arfer effeithiol, yn enwedig o ran y cwricwlwm newydd.
- Rhannu cipluniau ar arfer ddiddorol yn ein hadroddiadau arolygu.
- Parhau i esblygu cyflwynio ein Hadroddiad Blynyddol digidol PAEF yn amlinellu barn am gyflwr y genedl ar berfformiad addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
- Defnyddio ein Cymuned Rhieni a Gofalwyr i ymgysylltu'n ddyfnach â rhieni ar faterion penodol.
- Lansio Cymuned Athrawon a Staff Cymorth i'n galluogi i ymgysylltu ag ystod ehangach o weithwyr addysg proffesiynol ar faterion penodol.
- Parhau i gryfhau ein perthnasoedd yn y sectorau ôl-16 trwy waith ein harolygwyr cyswllt a thrwy ein perthynas esblygol â chorff Medr, a sefydlwyd yn ddiweddar.
- Elwa ar gyfleoedd i gydweithio ag arolygiaethau eraill.

- Archwilio opsiynau i gryfhau ein cysylltiadau â dysgwyr – i ystyried sut gallwn gyfleu canfyddiadau arolygu iddynt, ond hefyd clywed eu llais yn fwy rheolaidd ac i ffwrdd o'r broses arolygu.

## Ein sianelau

### Gwrando

- Fforymau Rhanddeiliaid rheolaidd yn benodol i sector, a gynhelir o leiaf unwaith y flwyddyn. Caiff y rhain eu cynnal gan Arolygydd Arweiniol Sector, gydag aelodau o blith uwch arweinwyr, fel penaethiaid, ymarferwyr, prifathrawon, athrawon ymgynghorol a chyrff cenedlaethol perthnasol. Mae pob sector yn ymdrin ag aelodaeth yn wahanol ond yn anelu at gyflawni'r ymgysylltiad gorau posibl. Dyma rôl cynrychiolwyr fforymau:

- rhannu adborth gyda ni am faterion arolygu o'u sector neu'u sefydliad
- rhannu ac eirioli gyda gwybodaeth eu rhwydwaith eu hunain am ein dull diwygiedig a materion allweddol mewn arolygu

**Cynnwys**

- Ar sail y model o'n Cynhadledd Genedlaethol i Benaethiaid ym mis Chwefror 2024, ein nod fydd darparu cyfle bob blwyddyn i gynrychiolwyr o sector dethol gyfarfod a chydweithio. Byddwn yn rhannu gwybodaeth, syniadau a barn am wella addysg a hyfforddiant a byddwn yn cynnwys darparwyr mewn arddangos arfer orau.

- Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Chynhadledd Sefydlog Ryngwladol yr Arolygiaethau a byddwn yn croesawu partneriaid rhyngwladol yng Ngwanwyn 2026.

**Hysbysu**

- Mae Arolygwyr, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol a Chyfarwyddwyr Strategol yn mynychu ac yn siarad mewn ystod o gynadleddau, gweithdai a digwyddiadau eraill a gynhelir ledled Cymru a thu hwnt.
- Rydym yn cynnal rhaglen flynyddol o recriwtio, hyfforddiant a diweddariadau ar gyfer arolygwyr allanol, fel arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr ychwanegol a phartneriaid gwella ysgolion.
- Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a Medr i ddarparu cyngor fel yr amlinellir yn y Cylch Gwaith blynyddol gan y Gweinidog Addysg i'r Prif Arolygydd.
- Ein gwefan yw ein prif sianel gyfathrebu ar-lein. Lansiom wefan newydd ym mis Medi 2024 a ddatblygwyd ar ôl rhaglen o brofion profiad defnyddwyr a sesiynau adborth. Byddwn yn gwerthuso'i pherfformiad yn rheolaidd i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu dod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnynt a bod ein negeseuon allweddol, ein hadroddiadau arolygu, ein harfer effeithiol, ein hadroddiadau thematig a'n cyhoeddiadau corfforaethol yn hygyrch i bawb.
- Mae ein tîm cyfathrebu yn canolbwyntio ar ddatblygu cynnwys difyr i roi diweddariadau ar ddatblygiadau yn gysylltiedig â'n gwaith a chynnig mewnwelediadau i faterion amserol am addysg a hyfforddiant.
- Mae ein e-saethiad bob hanner tymor i randdeiliaid (*'Datgan'*) yn crynhoi ymgyrchoedd diweddar, arfer effeithiol ac adroddiadau thematig. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am ddatblygiadau newydd. Rydym yn ei anfon at:

  - Arolygwyr Ychwanegol
  - Arolygwyr Cymheiriaid
  - Arolygwyr Lleyg
  - Pob darparwr addysg a hyfforddiant
  - Rhanddeiliaid sydd wedi cofrestru trwy ein gwefan

- Mae ein sianelau cyfryngau cymdeithasol, Facebook, X, LinkedIn a Youtube yn helpu ymhelaethu ar ein negeseuon ac yn hwyluso adborth anffurfiol.

## Monitro a gwerthuso

Byddwn yn gwerthuso'n rheolaidd pa mor dda rydym ni'n ymgysylltu â chi trwy:

- Gynnal arolwg blynyddol o amgyffredion rhanddeiliaid
- Gofyn yn rhagweithiol am eich adborth ar ein digwyddiadau a'n hyfforddiant
- Adolygu cyfraddau ymateb i'n hymgynghoriadau
- Dadansoddi ymddygiad a ffafriaethau defnyddwyr trwy ein sianelau digidol
- Ein proses adborth a chwyno ffurfiol
- Arolygon defnyddwyr

Yn fwy cyffredinol, rydym yn gwerthuso ac yn cyflwyno adborth ar arolygiad:

- Bydd Arolygwyr Cofnodol yn monitro ac yn gwerthuso gwaith pob arolygydd (Arolygydd Ychwanegol, Arolygydd Cymheiriaid, Arolygydd Lleyg), yn rhoi adborth iddynt, ac yn cofnodi hyn yn ein cronfa ddata sicrhau ansawdd.
- Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig cyfle i bennaeth y ddarpariaeth rannu ei farn mewn holiadur. Rydym yn gofyn iddynt werthuso a rhoi sylwadau ar ansawdd ein harolygiad a'r adroddiad yr ydym yn eu cofnodi yn ein cronfa ddata sicrhau ansawdd. Mae'r adborth hwn yn ein helpu i nodi pryderon a llywio ein cynllun hyfforddi a datblygu.

## Atodiad 1: Dadansoddi rhanddeiliaid allanol

Mae'r dadansoddiad hwn yn grwpio'n fras y rhanddeiliaid sy'n rhannu buddiant tebyg mewn addysg a/neu hyfforddiant. Mae hyn yn ein helpu i dargedu a blaenoriaethu ein negeseuon.

| **Buddiant** | **Math o randdeiliad (ychydig o enghreifftiau)** |
|---|---|
| Cânt eu dylanwadu'n uniongyrchol gan ein gwaith | Penaethiaid, prifathrawon, cyfarwyddwyr addysg, athrawon, darlithwyr, staff cymorth, ymarferwyr |
| Maent yn elwa'n uniongyrchol ar ein gwaith | Ysgolion a lleoliadau nas cynhelir, darparwyr ôl-16, awdurdodau lleol, partneriaid gwella ysgolion, gwasanaethau addysg mewn carchardai, dysgu oedolion, Llywodraeth Cymru, Medr, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) |
| Maent yn elwa'n anuniongyrchol ar ein gwaith | Dysgwyr, rhieni / gofalwyr, y cyhoedd, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Cymwysterau Cymru |
| Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at ein gwaith | Arolygwyr, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Prawf EF, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EF, Arolygiaeth Carchardai EF, Llywodraeth Cymru, Medr |
| Maent yn cyfrannu'n anuniongyrchol at ein gwaith | Cynhadledd Sefydlog Ryngwladol yr Arolygiaethau (SICI), Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Education Scotland, The Education and Training Inspectorate (Gogledd Iwerddon) ac Ofsted, Cwlwm |
| Mae ganddynt ddiddordeb yn ein gwaith ond nid ydynt yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol | Y cyfryngau, sylwebwyr addysg, cwmnïau ymchwil, ymgynghorwyr addysg a chyrff academaidd |

## Atodiad 2: Grwpiau rhanddeiliaid

Rydym yn adolygu'n rheolaidd y sefydliadau a'r bobl rydym yn ymgysylltu â nhw.

### Unigolion

- Penaethiaid
- Prifathrawon
- Uwch arweinwyr
- Ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir
- Athrawon newydd gymhwyso
- Dysgwyr (pob oed)
- Darlithwyr
- Athrawon
- Cynorthwywyr ystafell ddosbarth
- Arolygwyr – cymheiriaid, ychwanegol, partneriaid gwella ysgolion, lleyg, ACof, ACofM
- Rhieni a gofalwyr
- Llywodraethwyr

### Darparwyr

- Ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- Ysgolion cynradd
- Ysgolion uwchradd
- Ysgolion pob oed
- Ysgolion arbennig
- Unedau cyfeirio disgyblion
- Ysgolion annibynnol
- Addysg bellach
- Colegau arbenigol annibynnol
- Dysgu oedolion yn y gymuned
- Gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- Addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- Dysgu yn y gwaith
- Dysgu yn y sector cyfiawnder
- Trefniadau o ran y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- Gwasanaethau Gwaith Ieuenctid

### Sefydliadau

- Atebol
- Gweithredu dros Blant
- Rhwydwaith partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

- Agored Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
- Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
- Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

- Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Gyrfa Cymru
- Consortiwm Canolbarth y De
- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Plant yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
- Cyngor Ymgynghorol ar Addysg yr Eglwys yng Nghymru
- Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaethau Catholig
- Chwarae Teg
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Colegau Cymru
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
- Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)
- CYDAG
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cwlwm
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Education Scotland
- Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)
- Cymdeithas Saesneg fel Iaith Ychwanegol yng Nghymru (EALAW)
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD)
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- Cyngor Astudiaethau Maes
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Girlguiding Cymru
- GwE
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
- Arolygiaeth Carchardai EF
- Arolygiaeth Prawf EF
- Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru
- Medr

- Mudiad Meithrin
- Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Abl mewn Addysg
- Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid
- Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)
- Yr Undeb Addysg Cenedlaethol
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- NUS Cymru
- Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig Gogledd Cymru
- Ofsted
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- PACEY
- Partneriaeth
- Prif Swyddogion Ieuenctid (PYO)
- Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY)
- Prospect
- Parentkind
- Cymwysterau Cymru
- Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol
- Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG)
- Scouts Cymru
- Ymchwil y Senedd
- Cyngor Sgiliau Sector
- SNAP Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Partneriaeth Addysg De Orllewin Cymru
- Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE Cymru)
- Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig De Cymru
- Cynhadledd Sefydlog Ryngwladol Arolygiaethau
- Stonewall Cymru
- Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA)
- Arolygiaethau’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y DU
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon (UCET)
- Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU)
- Urdd Gobaith Cymru
- Voice Cymru
- Archwilio Cymru
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
- Cymdeithas Ysgolion Cynradd Cymru
- Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru (WISC)
- Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Wiserd
- Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc (YMCA)
- Ymddiriedolaeth Menywod Ifanc
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Y Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid

# Atodiad 3: Fforymau rhanddeiliaid, amlder ar draws sectorau

| Sector | Amlder |
|---|---|
| Cynradd | • Bob tymor |
| Uwchradd | • Bob tymor |
| Lleoliadau nas cynhelir | • Bob tymor |
| Annibynnol – yn cynnwys ysgolion annibynnol prif ffrwd, ysgolion arbennig annibynnol a cholegau arbenigol annibynnol | • Bob tymor |
| Arbennig ac UCD | • Bob tymor |
| Ysgolion pob oed | • Bob tymor |
| Ysgolion ffederal | • Bob tymor |
| Addysg bellach | • Bob tymor |
| Dysgu yn y gwaith | • Bob tymor |
| Dysgu oedolion yn y gymuned | • Bob tymor |
| Cymraeg i oedolion | • Bob tymor |
| Addysg gychwynnol athrawon | • Bob tymor |
| Gwasanaethau gwaith ieuenctid | • Bob tymor |
| Darpariaeth trochi yn y Gymraeg | • Bob tymor |